Mae'r daith hon yn cynnwys pentref glan môr tlws a Fictorianaidd, coedwig sy'n warchodfa natur, golygfeydd ysblennydd o Fae Ceredigion, pentref hanesyddol Tremadog a'i adeiladau Sioraidd, a thref borthladd brysur Porthmadog, gyda'i reilffyrdd bach a'r Cob enwog i groesi'r foryd.

## Manylion y daith

**Amcan o hyd:** 10km/6.3 milltir.
**Amcan o'r amser:** 3 awr.
**Map AO:** graddfa 1:25 000 Explorer 254.
**Man cychwyn/gorffen:** maes parcio glan môr ym Morth-y-Gest, SH565 373.

## Mynediad a chyfleusterau

**Parcio:** maes parcio Borth-y-Gest, lle i 50 car, LL49 9TS.
**Bws:** gwasanaeth rhif 99 Express Motors.
**Toiledau:** yn y maes parcio.
**Lluniaeth:** Mae nifer o leoedd yn gwerthu bwyd a diod ym Morth y Gest ac mae prif dref Porthmadog filltir i ffwrdd.

## Nodwch

- Mae dringfa raddol ar hyd llethrau Moel y Gest.
- Mae rhannau'r daith yn croesi neu'n dilyn y ffordd fawr - byddwch yn ymwybodol o'r traffig. Mae hefyd yn **croesi'r rheilffordd** bedair gwaith ac mae angen gofal arbennig wrth wneud hynny.
- Braslun yw'r map hwn. Argymhellir defnyddio'r **map AO** uchod.
- Cofier gadw at y Côd Cefn Gwlad:
  ***Parchwch, Diogelwch, Mwynhewch***
  naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf





Cylchdaith


# 15 Porthmadog




## Cyfarwyddiadau'r gylchdaith

O'r maes parcio ym Morth-y-Gest, ewch i gyfeiriad Porthmadog ac fe welwch arwydd am y warchodfa natur sy'n arwain i fyny'r grisiau i fynd at y coetir. Pan ddewch allan o'r warchodfa natur, cymerwch ofal wrth groesi ffordd Borthmadog i Morfa Bychan. Ewch heibio'r gwesty a thrwy'r maes carafanau yn Nhyddyn Llwyn, a dringo llethrau Moel y Gest cyn mynd i lawr ar yr ochr draw i gyrion Porthmadog. Wrth adael y goedlan, trowch i'r chwith ar hyd yr A497 a chroeswch y briffordd ar ôl yr adeilad olaf yn Ystâd Ddiwydiannol Penamser, ac yna croeswch y rheilffordd. Trowch i'r chwith ym Mhensyflog nes cyrraedd Tremadog. Drwy Coed y Nursery, tro o amgylch gorsaf Pen-y-Mount, ac ymlaen am harbwr Porthmadog. Mae lon glan afon yn arwain yn ôl heibio'r ierdydd cychod i'r dechrau ym Mhorth-y-Gest.







## Mannau o ddiddordeb

O ① **Borth-y-Gest** yr arferai teithwyr geisio croesi aber beryglus Glaslyn oedd yn cysylltu Sir Gaernarfon a Sir Feirionnydd. Roedd tywyswyr yn arwain teithwyr ar draws traethau'r aber i Harlech. Roedd diwydiant adeiladu cychod llewyrchus hefyd ym Morth y Gest, yn cyflenwi sgwneri i'w defnyddio gan y diwydiant llechi. Ceir golygfeydd anhygoel ar draws yr aber o'r Rhinogydd i'r de a'r Moelwynion i'r dwyrain.

Mae **gwarchodfa natur Parc y Borth** ② yn 15 hectar o goetir derw a dolydd blodau gwylltion. Mae'r Gnocell Fraith Fwyaf, y Dylluan Frech a'r Gwybedog Cefnddu i'w gweld yma.




Adeiladwyd **Tremadog** ③ ar dir a adferwyd o'r Traeth Mawr ym 1805. Galwyd y prif strydoedd yn Stryd Dulyn a Stryd Llundain gan ddisgwyl y byddai'r prif lwybr o Lundain i Ddulyn yn pasio trwy Dremadog i Borth Dinllaen (gweler taith rhif 7), ond ni ddigwyddodd. Adeiladodd William Alexander Madocks, Aelod Seneddol a luniodd ac a adeiladodd y dref ac yna'r cob ym Mhorthmadog, eglwys yn arddull yr adfywiad Gothig ④ – un o'r cyntaf i'w hadeiladu yng Nghymru – yn ogystal â chapel clasurol ⑤ oedd yn dra gwahanol i'r rhan fwyaf o gapeli Cymreig y pryd, yn ymdebygu i deml Roegaidd glasurol. Ganed **T. E. Lawrence**, a adwaenir hefyd fel "Lawrence of Arabia" ar yr 16eg o Awst 1888 mewn tŷ o'r enw 'Gorphwysfa' yn Nhremadog, a elwir bellach yn 'Snowdon Lodge' ⑥.

Mae canolfan ymwelwyr **Rheilffordd Ucheldir Cymru** ⑦ yn addas i blant ac wedi ennill gwobrau lu.

Pan adeiladwyd **Y Cob** ⑧ gan Madocks ym 1811, adferwyd tua 70,000 erw o dir. Costiodd y cob £60,000 i Madocks ei adeiladu, sy'n gyfwerth â £43,000,000 heddiw. Roedd rhaid troi cwrs yr Afon Glaslyn er mwyn adeiladu'r cob ac o ganlyniad, crëwyd **harbwr** ⑨ naturiol newydd gyda digon o ddyfnder i long hwylio fordwyol fechan. Yn dilyn hyn, datblygodd Porthmadog yn borthladd prysur yn y 19eg ganrif, yn allforio llechi o Flaenau Ffestiniog i Loegr ac i weddill y byd.

Mae pentref Eidalaidd **Portmeirion** ⑩ chydig filltiroedd i ffwrdd ym Mhenrhyndeudraeth. Mae **Ceudyllau Llechwedd** ⑪ wedi'u lleoli yn agos ym Mlaenau Ffestiniog.

This walk takes in a charming Victorian seaside village, a wooded nature reserve, stunning views over Cardigan Bay, the historic Georgian village of Tremadog, and the busy harbour town of Porthmadog, with its narrow gauge railways and famous cob crossing.

## Walk details

**Approx. Distance:** 10km/6.3 miles.

**Approx Time:** 3hrs.

**OS Map:** 1:25 000 scale Explorer Map 254.

**Start/Finish:** Borth-y-Gest sea front car park, SH565 373.

## Access and amenities

**Parking**: at Borth-y-Gest car park, 50 spaces, LL49 9TS.

**Bus:** The Express Motors 99 service.

**Public Toilets:** at the car park.

**Refreshments:** There are a number of establishments at Borth-y-Gest. The main town of Porthmadog is a mile away.

## Please note

- There is a gradual climb along the slopes of Moel Y Gest.
- Parts of the route either cross or follow some main roads - please be aware of traffic. This walk crosses a **railway line** four times, please be very careful every time you cross.
- This map is a rough guide only. We recommend you use the above **OS map**.
- Remember to adhere to the Countryside Code: ***Respect, Protect, Enjoy*** naturalresources.wales/media/3598/cod-cefn-gwlad.pdf

⑨




# 15 Porthmadog Circular walk





## Walk directions

From the car park at Borth-y-Gest head in the direction of Porthmadog, you will see a sign to the nature reserve which leads up the steps to access the woodland. When you exit the nature reserve take care as you cross the Porthmadog to Morfa Bychan road. Head past the hotel and through the caravan park at Tyddyn Llwyn, climbing up the slope of Moel y Gest and down the opposite side to the outskirts of Porthmadog. On exiting the woodland turn left along the A497, crossing the road just after the last building in the Penamser Industrial Estate and crossing the railway. Turn left at Pensyflog until you reach Tremadog. Through Nursery Wood, a slight detour out towards Pen-y-Mount station, and from here continue to Porthmadog in the direction of the harbour. A riverside lane from the harbour leads back past the boatyards to the start point at Borth-y-Gest.

①



②



⑧



## Points of interest

① **Borth-y-Gest** was were travellers attempted the crossing of the dangerous Glaslyn estuary that linked the counties of Caernarfonshire and Meirionethshire. Guides led travellers across the sands of the estuary to Harlech. The village also had a flourishing boat-building industry, supplying schooners for use in the slate trade. There are wonderful views across the estuary to the the Rhinog Mountains to the south, and the Moelwyn Mountains to the east.

**Parc y Borth nature reserve** ② covers 15 hectares of oak woodland and wildflower meadows. Tawny Owls, Great Spotted Woodpeckers and Pied Flycatchers can be seen here.

③



**Tremadog** ③ was built on land reclaimed from Traeth Mawr (large beach) in 1805. The main streets were named Dublin Street and London Street in anticipation of the main route from London to Dublin passing through to Porth Dinllaen (see walk no 7), which didn't happen. William Alexander Madocks, an MP who built the town and subsequently the cob at Porthmadog, built a Gothic revival style church ④ – one of the first in Wales - and a classical chapel, resembling a Greek temple, quite unlike most welsh chapels of the time ⑤. **T. E. Lawrence**, also known as "Lawrence of Arabia". was born on 16 August, 1888, in a house named 'Gorphwysfa' in Tremadog, now known as 'Snowdon Lodge' ⑥ .

The **Welsh Highland Heritage Railway** visitor center ⑦ is child-friendly and an award-winning attraction.

When **the Cob** ⑧ was built by Madocks in 1811 it reclaimed some 70,000 acres of land and cost him £60,000, the equivalent of £43,000,000 today. The diversion of the Afon Glaslyn required to build the Cob resulted in the creation of a new natural **harbour** ⑨ which had a deep enough draught for small ocean-going sailing ships. Porthmadog subsequently developed in the 19th century as a busy port exporting slate from Blaenau Ffestiniog to the whole world.

The Italianate village of **Portmeirion** ⑩ is a few miles drive from Porthmadog at Penrhyndeudraeth. **Llechwedd Slate Caverns** ⑪ are located nearby in Blaenau Ffestiniog.